# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Maes y Morfa**

**The Caretakers Lodge**
**76 Stacey Road**
**Caerdydd**
**CF24 1DW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Maes y Morfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Maes y Morfa |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru ag AGC. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn parchu'r plant yn eu gofal.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd uchel y tu mewn a'r tu allan yn annog y plant i chwarae a datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hybu iechyd a llesiant y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth foddhaol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau. Maent yn cynnig cymorth i'r staff yn eu rolau ac maent yn ymrwymedig i wella arferion er budd y plant. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal y mae eu plant yn ei gael.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael llawer o ddewisiadau a gallant wneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis ble yr hoffent chwarae ac â beth. Er enghraifft, nid oedd un plentyn am ymuno yn y gweithgaredd amser cylch, a bu modd iddo barhau i chwarae â'r teganau meddal. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol iddynt. Er enghraifft, pan fyddant yn gofyn am gymorth i reidio'r treiciau yn yr ardd flaen. Mae'r plant na allant gyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio arwyddion, fel pwyntio, i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd at y staff am gysur pan fyddant yn drist neu'n ei chael hi'n anodd setlo. Maent yn gyfarwydd iawn â'r staff ac mae hynny'n eu helpu i setlo'n gyflym. Mae'r plant yn hyderus i ddilyn yr arferion sydd ar waith ac yn eu mwynhau. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i feithrin ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, gwelsom bron pob un o'r plant yn rhoi'r teganau i gadw gan ganu cân 'Amser Tacluso'.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hapus ac yn frwdfrydig â'r staff yn ystod eu gweithgareddau ac yn cael eu hysbrydoli a'u cymell. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae rôl gyda thegan ffôn symudol ac yn cael sgyrsiau â'r staff. Mae'r plant yn chwilio'n gyffrous am bryfed gyda chwyddwydrau yn yr awyr agored. Mae'r plant yn dysgu cymryd eu tro a rhannu teganau.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a'r gweithgareddau sydd ar gael yn fawr iawn. Maent yn meithrin amrywiaeth eang o sgiliau wrth iddynt archwilio eu hystafelloedd chwarae, gan ymgolli yn y gweithgaredd o'u dewis. Gwelsom blant yn darganfod sut i wneud marciau gwahanol â sialc. Gwelsom blant eraill yn chwarae â blociau adeiladu magnetig. Mae'r plant yn mwynhau canu caneuon gwahanol yn Gymraeg yn fawr iawn ac maent yn ymateb yn dda i'r symudiadau sy'n cyd-fynd â geiriau'r caneuon.

Mae'r plant yn meithrin eu hyder gyda chymorth. Er enghraifft, gwelsom y plant yn ymarfer defnyddio'r wal ddringo yn yr ardd gyda chymorth gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau estynedig o amser sy'n eu galluogi i atgyfnerthu sgiliau a gwneud penderfyniadau. Mae'r plant yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain, fel arllwys eu diodydd eu hunain a helpu i weini'r bwyd yn ystod amseroedd bwyd. Mae bron pob un o'r plant yn hyderus i olchi a sychu eu dwylo'n, ac mae eraill yn gwneud hynny gydag arweiniad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn annog y plant i fod yn egnïol ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r staff yn darparu dewis maethlon o brydau i'r plant. Er enghraifft, cafodd y plant fadarch wedi'u torri a thomatos ceirios gyda thost i frecwast. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion deietegol a dewisiadau'r plant ac yn gweithredu arnynt yn briodol. Maent yn sicrhau y caiff pob ardal fwyta ei diheintio, a bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau ar waith. Mae'r staff yn deall y trefniadau amddiffyn plant ac mae'r gweithdrefnau diogelu yn gadarn. Gwnaethant ymateb yn dda ac yn hyderus i senarios diogelu posibl pe bai unrhyw bryderon am les plentyn. Mae digon o staff sy'n meddu ar dystysgrifau cymorth cyntaf. Mae pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif hylendid bwyd ac wedi cwblhau eu hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Maent yn canmol y plant am wrando ar gyfarwyddiadau ac yn eu hannog i ofalu amdanynt eu hunain ac am eraill. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ganolbwyntio wrth iddynt ddod i lawr y grisiau. Mae'r staff yn dangos empathi tuag at y plant. Maent yn annog y plant i fynegi eu teimladau'n gyson. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu iddynt deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r staff yn siarad yn barchus â'i gilydd ac yn fodelau rôl da i'r plant. Maent yn defnyddio dulliau tynnu sylw i leihau unrhyw sefyllfaoedd croes lle mae'r plant yn dymuno defnyddio'r un teganau, drwy roi adnoddau a theganau eraill iddynt. Mae'r staff yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt. Yn ystod amser cinio, gwelsom y staff yn sgwrsio â'r plant am yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud yn yr ysgol y bore hwnnw.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant drwy eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a'u dewisiadau. Maent yn arsylwi ar alluoedd y plant ac yn eu hasesu yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff camau nesaf na chamau datblygu'r plant eu nodi. Mae gan y lleoliad drefniadau addas i nodi a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn dda. Clywsom y staff yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant ar sawl achlysur yn ystod y dydd. Gwelsom y staff yn canu gyda'r plant, a ymunodd â nhw'n hyderus ac yn frwdfrydig yn Gymraeg.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau cynhwysfawr ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg effeithiol a chywir. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac ymdrinnir ag unrhyw beryglon a nodwyd. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae system gadarn ar waith i gofnodi unrhyw ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad a dyfeisiau, gan gynnwys tystysgrifau yswiriant. Mae'r lleoliad yn daclus ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae gweithdrefn lanhau sylfaenol ar waith, ond nid oes archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau yn y lleoliad yn ddiweddar.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar iawn i blant. Mae wedi'i addurno'n dda gyda lliwiau tawel, niwtral, sy'n rhoi ymdeimlad hamddenol a chartrefol i'r lleoliad. Arddangosir lluniau o'r plant wrth eu gwaith, sy'n cryfhau eu hymdeimlad o gysylltiad â'r lleoliad. Mae digon o le a golau yn yr ystafelloedd dan do, sy'n rhoi rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth iddynt chwarae. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ystafelloedd yn drefnus ac wedi'i gosod mewn ffordd ddiddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd a datblygiad y plant, a'u hannog i archwilio. Mae'r ystafelloedd dan do yn cynnwys corneli tawel a goleuadau llai llachar, sy'n rhoi cyfle i'r plant orffwys ac ymlacio yn ogystal ag ymgymryd â chyfleoedd chwarae ysgogol. Mae'r ardal awyr agored gefn yn cynnwys amrywiaeth dda o adnoddau, sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r ardal awyr agored flaen yn cynnwys cyfarpar i feithrin sgiliau echddygol bras y plant. Er enghraifft, gweithgareddau dringo a lle i reidio beiciau a threiciau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnig amrywiaeth o ddewis i'r plant. Maent yn darparu adnoddau amrywiol ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Er enghraifft, drwy chwarae bloc, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau crefft, a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae'r staff yn sicrhau bod y teganau, yr adnoddau, y dodrefn a'r cyfarpar yn y lleoliad mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac o ansawdd uchel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft byrddau, cadeiriau, toiledau a sinciau maint plant, sy'n addas ar gyfer oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli i safon foddhaol. Mae'r datganiad o ddiben wedi cael ei adolygu, ond gwelsom fod rhai manylion ar goll. Cafodd hyn ei unioni ar unwaith gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau da ar waith ar y cyfan ac maent yn rhoi i'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r gwaith papur yn gyfredol ac yn drefnus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi achos o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â chofnodion. Nid oedd yr holl gofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau wedi'u cwblhau'n llawn. Nid oedd y system sydd ar waith ar gyfer cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes yn ei gwneud hi'n hawdd eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd. Nid oedd y ffurflenni meddyginiaeth yn cynnwys yr amser y rhoddwyd y dos diwethaf. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynllunio'n briodol ar gyfer gwelliannau. Mae systemau ar waith i fonitro'r gofal a ddarperir. Mae adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau sy'n ystyried safbwyntiau'r staff, rhieni/gofalwyr, y plant a'r tîm rheoli, sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol. Mae polisi cwynion ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn cynnwys gwybodaeth reoliadol am sut yr ymdrinnir â chŵyn gan asiantaeth allanol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi mynd i'r afael â hyn ar unwaith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cynnwys y cyfle i drafod unrhyw bryderon diogelu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cymarebau staffio gofynnol yn cael eu bodloni bob dydd, gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'r staff yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r rhieni am lesiant a datblygiad eu plant drwy lwyfan digidol. At hynny, mae'r staff yn siarad â'r rhieni ar ddiwedd y dydd er mwyn rhannu gwybodaeth. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn gyda'r lleoliad, gan nodi bod y lleoliad wedi bod yn gefnogol iawn wrth ddiwallu anghenion unigol eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff cofnodion cywir o ddamweiniau, digwyddiadau, anafiadau sy'n bodoli eisoes a meddyginiaeth a roddwyd eu cadw a'u cynnal yn gyson. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Dylid cynnwys camau nesaf mewn arsylwadau er mwyn llywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol. |
| Dylid ystyried defnyddio'r Archwiliad Rheoli Heintiau fel adnodd i lywio arferion glanhau dyddiol a rhestrau gwirio. |
| Dylid cynnwys Diogelu/Pryderon fel eitem barhaol ar agenda'r cyfarfodydd staff a'r cyfarfodydd goruchwylio. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/07/2024